Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Bryniago
# Lower James Street
# Pontarddulais
# Abertawe
# SA4 8JA

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 27/07/2016**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Gymraeg Bryniago ym mhentref Pontarddulais ac mae’n cael ei chynnal gan awdurdod lleol Sir Abertawe.  Mae 251 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 52 o ddisgyblion oed meithrin rhan-amser.  Mae’r disgyblion wedi eu rhannu rhwng wyth dosbarth, a Chymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol.

Daw tua 38% o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg.  Mae tua 3% yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.  Mae’r ysgol wedi adnabod bod 20% o ddisgyblion yn rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys ychydig iawn â datganiad o anghenion addysgol arbennig.  Ychydig iawn o ddisgyblion ddaw o gefndir ethnig lleiafrifol neu cymysg.

Penodwyd y pennaeth i’w swydd ym mis Medi 2011 a chafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Tachwedd 2009.

Mae’r ysgol yn ‘ysgol arloesi’r cwricwlwm’ ar hyn o bryd.  Mae hyn yn golygu ei bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill sy’n arloesi gyda’r cwricwlwm i ddatblygu a chynnal peilot o gwricwlwm newydd i Gymru.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Bryniago yn 2015-2016 yw £3,124.  Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Abertawe yw £5,006 a'r lleiafswm yw £2,556.  Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Bryniago yn safle 53 allan o 79 ysgol gynradd yn Abertawe o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yno
- llawer yn datblygu medrau dysgu annibynnol addas ac yn defnyddio'u medrau meddwl yn gymwys i ddatrys problemau mewn gwersi
- ymddygiad llawer o disgyblion yn dda
- medrau darllen llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n briodol
- rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio ystod o strategaethau rhifedd yn briodol
- gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta, yfed a chadw'n iach
- y ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn gadarn
- rhan fwyaf yr athrawon yn cynllunio profiadau dysgu priodol sy'n diwallu anghenion llawer o ddisgyblion

Fodd bynnag:

- nid yw lleiafrif y disgyblion yn gwrando na chanolbwyntio'n briodol mewn gwersi sy'n amharu ar ddysgu disgyblion eraill
- nid yw athrawon yn olrhain cynnydd disgyblion yn ddigon effeithiol
- nid yw trefniadau ar gyfer cefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn ddigon effeithiol i ddiwallu anghenion pob disgybl

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- gweledigaeth ac amcanion yr ysgol yn canolbwyntio'n dda ar godi safonau a sicrhau lles disgyblion.
- llywodraethwyr yn gefnogol ac yn datblygu eu rôl i fonitro gwaith yr ysgol yn briodol
- gan yr ysgol drefniadau hunanarfarnu addas sy'n cynnwys y staff, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion yn y broses
- cynllun gwella'r ysgol yn nodi blaenoriaethau'r ysgol yn briodol
- trefniadau pontio rhwng yr ysgol a'r meithrinfeydd lleol a'r ysgol uwchradd yn gadarn
- yr ysgol yn defnyddio'r gymuned leol i gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn dda
- cydweithio agos yn bodoli gydag asiantaethau arbenigol sy'n sicrhau cefnogaeth a chymorth priodol i ddisgyblion a theuluoedd

- gan yr ysgol drefniadau cyllidebol priodol ac mae gwariant yn cysylltu'n addas ag amcanion, targedau a chynlluniau gwella'r ysgol

Fodd bynnag:

- nid yw trefniadau cyfathrebu yn sicrhau bod pawb yn deall eu rôl mewn sicrhau gwelliant a llywio cyfeiriad strategol yr ysgol
- nid oes gan lywodraethwyr ddealltwriaeth ddigon manwl o berfformiad yr ysgol i'w herio'n effeithiol
- mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn rhy ddisgrifiadol ar adegau ac nid yw'n canolbwyntio digon ar fesur effaith y ddarpariaeth ar safonau a lles disgyblion

## Argymhellion

A1 Gwella safonau darllen ac ysgrifennu disgyblion gan gynnwys llawysgrifen

A2 Gwella presenoldeb disgyblion

A3 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd a llythrennedd yn briodol ar draws y cwricwlwm

A4 Rhannu'r arferion addysgu effeithiol i sicrhau bod athrawon yn diwallu anghenion pob disgybl

A5 Gwella prosesau asesu ac olrhain cynnydd disgyblion

A6 Cryfhau rôl y llywodraethwyr fel eu bod yn gweithredu'n fwy strategol

A7 Mireinio trefniadau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant er mwyn sicrhau eu bod yn fwy arfarnol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Wrth gychwyn yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol llawer o ddisgyblion yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu. Maent yn datblygu medrau dysgu annibynnol addas ac yn defnyddio'u medrau meddwl yn gymwys i ddatrys problemau mewn gwersi. Mae lleiafrif o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn eu targedau.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau llafar yn effeithiol ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa'n llwyddiannus i fynegi eu hunain mewn sefyllfaoedd gwahanol. Maent yn hyderus wrth sgwrsio a thrafod gyda'u cyfoedion ac oedolion gan ddefnyddio cystrawen naturiol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn briodol mewn trafodaethau dosbarth gan gynnig syniadau a defnyddio iaith briodol i'r dasg.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n briodol. Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn adnabod llythrennau a seiniau yn gynnar ac yn dechrau adeiladu geiriau'n effeithiol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn datblygu'n ddarllenwyr medrus, sy'n darllen yn gywir ac yn rhugl. Maent yn dangos dealltwriaeth dda o ddigwyddiadau a'u hoff gymeriadau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau'n gadarn ac yn mwynhau darllen. Maent yn darllen yn glir a chyda rhuglder, gan drafod cynnwys a mynegi barn yn ddeallus. Maent yn amrywio goslef y llais yn effeithiol er mwyn dal sylw'r gwrandawyr. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd digonol yn eu medrau darllen er mwyn iddynt gael mynediad llawn i'r cwricwlwm.

Mae medrau ysgrifennu cynnar y rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n effeithiol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn ysgrifennu brawddegau synhwyrol at wahanol bwrpasau, gan sillafu geiriau ac atalnodi yn unol â'u hoed a'u gallu. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu rysáit ar gyfer crempog yn rhesymegol ac yn ailadrodd stori Santes Dwynwen yn gywir. Mae disgyblion mwy abl yn defnyddio ansoddeiriau diddorol i gyfoethogi gwaith ac yn dechrau gwella'u darnau trwy ailddrafftio gyda chymorth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n briodol. Maent yn ysgrifennu at wahanol bwrpasau ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd yn addas. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau ysgrifennu ac nid oes ganddynt afael cadarn ar fedrau atalnodi sylfaenol, sillafu nac ysgrifennu darnau estynedig. Mae disgyblion uwch eu gallu yn defnyddio geiriau da i gyfleu naws a theimlad ac yn defnyddio paragraffau'n llwyddiannus ar y cyfan i drefnu'u gwaith. Fodd bynnag, ar draws cyfnod allweddol 2, mae llawysgrifen y mwyafrif o'r disgyblion yn flêr ac nid ydynt yn dangos balchder yng nghyflwyniad eu gwaith.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio a chymhwyso eu medrau rhifedd yn dda mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Erbyn diwedd y cyfnod,

maent yn datrys problemau rhif yn llwyddiannus, defnyddio arian mewn sefyllfa pob dydd, casglu a chofnodi data mewn graff bar a defnyddio unedau mesur priodol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio ystod o strategaethau rhifedd yn briodol. Maent yn dadansoddi data, datrys problemau ffracsiynau a chanrannau yn ogystal â mesur onglau, cynhwysedd ac arwynebedd yn briodol. Mewn ychydig iawn o enghreifftiau, mae disgyblion ar draws y cyfnod yn medru cymhwyso'u medrau rhifedd yn briodol ar draws pynciau eraill. Enghraifft dda o hyn yw'r defnydd o fedrau rhifedd mewn daearyddiaeth er mwyn mesur lled, cyflymder a dyfnder afon a chyflwyno'r wybodaeth ar ffurf graff yn effeithiol.

Mae nifer y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn isel iawn, felly nid yw cymariaethau o'u perfformiad yn erbyn perfformiad disgyblion eraill yn ddibynadwy. Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng cyflawniad bechgyn a merched ar y lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 dros y pedair blynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, mae merched yn perfformio'n well na'r bechgyn ar y lefel uwch mewn mathemateg a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 2 dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliannau disgwyliedig mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol wedi amrywio o'i gymharu ag ysgolion tebyg dros gyfnod o bedair blynedd. Yn gyffredinol, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant uwch yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf neu'r 50% uwch dros yr un cyfnod. Mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig ac uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn amrywio ym mhob pwnc craidd dros yr un cyfnod o'i gymharu ag ysgolion tebyg.

**Lles: Digonol**

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta, yfed a chadw'n iach. Mae llawer yn manteisio ar y cyfle i fynychu clybiau chwaraeon ar ddiwedd y dydd er mwyn cadw'n heini. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel o fewn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt.

Mae lefelau presenoldeb wedi gosod yr ysgol yn yr 50% is dros y tair blynedd diwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae safon ymddygiad llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn dda ac maent yn gwrtais i'w gilydd ac i oedolion. Mae llawer yn cymryd cyfrifoldeb aeddfed am eu gwaith ac yn canolbwyntio am gyfnodau priodol. Maent yn gweithio'n annibynnol ac yn datblygu dealltwriaeth briodol o'u cryfderau a meysydd i'w gwella. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn gwrando na chanolbwyntio'n briodol mewn gwersi, sy'n amharu ar ddysgu disgyblion eraill. Mae eu diffyg ymroddiad at eu gwaith yn eu rhwystro rhag gwneud cynnydd da.

Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r cyngor eco yn cyfrannu'n briodol at fywyd yr ysgol. Enghraifft o hyn yw'r ffordd mae cyngor ysgol yn hel arian at wahanol elusennau trwy werthu cacennau ar ddiwrnodau arbennig. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol sy'n hyrwyddo eu hymroddiad i'r ardal leol, er enghraifft trwy gymryd rhan mewn cymanfa a gwasanaethau diolchgarwch mewn capeli lleol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn cynllunio profiadau dysgu priodol sy'n ennyn diddordeb llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r profiadau hyn yn bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, y Cyfnod Sylfaen a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio bob tro'n sicrhau profiadau dysgu sy'n diwallu anghenion disgyblion yn ddigon llwyddiannus. Yng nghyfnod allweddol 2, caiff y disgyblion gyfleoedd cyfyngedig i ddatblygu'u medrau ymchwilio a dysgu annibynnol mewn arbrofion gwyddonol.

Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi'i ymgorffori'n gadarn yng nghynlluniau'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau'n rhoi cyfleoedd cyson i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 gymhwyso'u medrau rhifedd a llythrennedd mewn ystod eang o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Er bod yr ysgol yn darparu amrywiaeth addas o raglenni ymyrraeth rhifedd a llythrennedd, nid ydynt o hyd yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol. Yn ddiweddar, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn datblygu'n briodol.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu ymwybyddiaeth o Gymreictod ac i ddysgu am ddiwylliant eu hardal leol a Chymru gyfan yn llwyddiannus. Mae ymweliadau gan artistiaid ac awduron lleol yn cyfoethogi hyn yn dda. Maent yn cymryd rhan mewn amryw o weithgareddau ac eisteddfodau sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu medrau cymdeithasol a lles disgyblion.

Mae'r ysgol yn cynllunio cyfleoedd effeithiol i ddatblygu gwybodaeth y disgyblion am faterion dinasyddiaeth fyd-eang trwy'r cwricwlwm a gwasanaethau ysgol gyfan. Enghraifft dda o hyn yw'r gwaith ar gasglu arian i elusennau lleol a byd eang. Mae'r disgyblion yn dysgu am weithredu mewn modd cynaliadwy yn briodol, er enghraifft trwy ailgylchu a chasglu sbwriel ar draws yr ysgol.

**Addysgu: Digonol**

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf yr athrawon yn cynllunio profiadau dysgu priodol sy'n diwallu anghenion llawer o ddisgyblion. Mae ganddynt berthynas waith gadarn gyda disgyblion ac mae bron pob aelod staff yn modelu iaith yn glir a chywir. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at gywirdeb llafaredd y disgyblion. Mewn llawer o'r dosbarthiadau, lle mae addysgu'n fwyaf effeithiol, mae athrawon yn sicrhau cyflwyniadau gwerthfawr a rhediad priodol i'r wers ac yn disgwyl llawer gan ddisgyblion. Maent yn defnyddio holi medrus yn llwyddiannus i hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion a'u hannog i gyfrannu i'r wers. Yn yr ychydig o ddosbarthiadau llai effeithiol, nid yw'r rheolaeth dosbarth yn ddigon cadarn i reoli ymddygiad disgyblion yn effeithiol ac nid yw'r gweithgareddau wedi'u haddasu'n ddigonol i ddiwallu anghenion grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae athrawon yn gwneud defnydd cadarn o strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol. Maent yn marcio gwaith disgyblion yn fwriadol ac yn cynnig adborth addas. Yn gyffredinol, mae sylwadau athrawon yn helpu disgyblion i wybod beth y

maent yn ei wneud yn dda a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Mae disgyblion yn asesu gwaith eu hunain a'u cyfoedion yn rheolaidd sy'n dechrau cael effaith gadarnhaol ar eu gwaith.

Mae arweinwyr yn dadansoddi canlyniadau asesiadau cenedlaethol a chanfyddiadau asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn addas. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn olrhain cynnydd disgyblion yn ddigon effeithiol ar draws yr ysgol. O ganlyniad, nid ydynt bob amser yn cynllunio ar gyfer grwpiau penodol yn briodol, nac yn mesur effeithiolrwydd rhaglenni ymyrraeth ac addysgu ar ddeilliannau disgyblion.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn cynnwys sylwadau gwerthfawr ar gynnydd eu plant, ynghyd â thargedau addas ar gyfer gwella.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn briodol. Mae'r ethos gofalgar yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo yfed a bwyta'n iach,ac ar gyfer sicrhau bod y disgyblion yn deall pwysigrwydd cadw'n heini. Mae'r amrywiaeth o weithgareddau mewnol ac allgyrsiol hefyd yn hyrwyddo'r elfen hon yn dda. Er enghraifft, mae disgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau coginio gwerthfawr.

Mae'r ysgol yn gweithio'n addas gydag asiantaethau allanol sy'n cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion; er enghraifft, y gwasanaethau lles, yr heddlu, a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r ysgol yn darparu cyngor gwerthfawr i ddisgyblion ar sut i gadw'n ddiogel ar y rhyngrwyd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn bodloni anghenion lleiafrif o'r disgyblion. Mae athrawon yn adnabod anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn briodol ac yn sicrhau bod ganddynt gynlluniau addysg unigol addas yn eu lle. Maent yn cydweithio'n addas â rhieni a disgyblion i bennu targedau ac i adolygu cynnydd. Fodd bynnag, nid yw'r targedau ar gyfer gwelliant o hyd yn ddigon mesuradwy i fesur cynnydd y disgyblion hyn yn ddigon effeithiol. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn darparu rhaglenni ymyrraeth addas ar gyfer lleiafrif o ddisgyblion sydd angen cefnogaeth ddwys. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau ar gyfer cefnogi'r holl ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn ddigon cyson nac yn effeithiol. Er enghraifft, nid yw disgyblion sydd angen gwella medrau darllen yn derbyn ymyrraeth na chefnogaeth addas. O ganlyniad, nid yw mwyafrif o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn eu targedau.

### Yr amgylchedd dysgu: Digonol

Mae pwyslais priodol ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae goddefgarwch a chydraddoldeb hiliol yn cael sylw priodol drwy'r rhaglen addysg bersonol a

chymdeithasol, gwasanaethau boreol a gwaith thema. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ymgymryd â gweithgareddau tu fewn a thu allan i oriau ysgol; er enghraifft, mynd ar ymweliadau preswyl fel rhan o raglen pontio'r ysgol uwchradd ac ymgymryd â gwersi coginio. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn cynllunio'n ddigon manwl er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad i gwricwlwm sy'n diwallu eu hanghenion yn llawn.

Mae cyflenwad helaeth o adnoddau o ansawdd da i gefnogi'r dysgu a'r addysgu. Mae adeiladau a thir yr ysgol yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae arddangosfeydd deniadol a lliwgar yn dathlu llwyddiannau a gwaith y disgyblion ar draws yr ysgol yn effeithiol. Mae'r ysgol wedi sicrhau bod ardaloedd dysgu priodol wedi eu darparu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, gan gynnwys ardaloedd allanol sy'n cyfoethogi'r dysgu yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r buarth a'r cyfarpar dringo ar safle 'Bryniago Bach' yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad corfforol disgyblion ieuengaf yr ysgol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gweledigaeth ac amcanion yr ysgol yn canolbwyntio'n dda ar godi safonau a sicrhau lles disgyblion. Fodd bynnag, nid yw trefniadau cyfathrebu yn sicrhau bod holl randdeiliaid yr ysgol yn deall eu rolau mewn sicrhau gwelliant a llywio cyfeiriad strategol yr ysgol.

Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel ac mae'r uwch dîm rheoli yn gweithio'n ddiwyd i gyflawni'u dyletswyddau ac i gefnogi bywyd a gwaith yr ysgol. Mae staff yn cydweithio'n agos fel tîm ac yn ymgymryd â'u gwaith yn gydwybodol iawn. Mae cyfarfodydd staff a'r uwch dîm rheoli yn effeithlon ac yn cynhyrchu pwyntiau gweithredu addas er mwyn codi safonau a gwella darpariaeth. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn mesur effaith hyn yn ddigon cyson na phwrpasol er mwyn sicrhau gwelliant cynyddol a pharhaus.

Mae'r ysgol yn ymateb yn briodol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn cynllunio'n addas ar gyfer y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ac yn hybu ffitrwydd a lles disgyblion trwy amrywiaeth o weithgareddau. Mae'r ysgol hefyd yn cydweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill sy'n arloesi gyda'r cwricwlwm i ddatblygu a chynnal peilot o gwricwlwm newydd i Gymru.

Mae swydd ddisgrifiadau'r staff yn gyfredol ac yn adlewyrchu eu rolau a'u cyfrifoldebau yn eglur. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn addas ar gyfer yr athrawon a'r staff ategol. Fodd bynnag, nid yw trefniadau monitro'n canolbwyntio'n ddigonol ar fesur effaith y broses ar safonau addysgu, dysgu a deilliannau disgyblion. Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn. Maent yn datblygu eu rôl i fonitro gwaith yr ysgol yn addas trwy drafod safonau gydag arweinwyr pwnc ac arsylwi gwersi. Fodd bynnag, nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon manwl o berfformiad yr ysgol i herio arweinwyr a'u dwyn i gyfrif am ddeilliannau'r disgyblion.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae’r pennaeth wedi datblygu rhaglen briodol ar gyfer monitro ac arfarnu ystod o agweddau o fywyd a gwaith yr ysgol dros gyfnod o amser. Mae arweinwyr yn cynnwys staff, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion yn y broses ac yn gwneud defnydd priodol o dystiolaeth uniongyrchol fel arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau, a holi barn disgyblion a rhieni. Mae’r ysgol hefyd yn dadansoddi a defnyddio data asesiadau diwedd cyfnod allweddol athrawon yn briodol er mwyn cymharu perfformiad yr ysgol gydag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, nid yw’r adroddiadau sy’n deillio o hyn yn ddigon arfarnol i roi darlun cytbwys o gryfderau a gwendidau’r ysgol. O ganlyniad, mae’r adroddiad hunanarfarnu yn rhy ddisgrifiadol ar adegau ac nid yw’n canolbwyntio digon ar fesur effaith gwaith yr ysgol ar ddeilliannau a lles disgyblion.

Yn gyffredinol, mae’r cynllun gwella ysgol yn nodi blaenoriaethau’r ysgol yn addas, ynghyd â chyfrifoldebau, costau, amserlen weithredu a dangosyddion llwyddiant. Mae arweinwyr yn adolygu’r cynllun datblygu blaenorol yn bwrpasol ac mae hyn yn nodi’r cynnydd a wnaed. Fodd bynnag, mae’r cynllun yn cynnwys nifer fawr o gamau gweithredu ac, o ganlyniad, nid yw’r graddfeydd amser bob amser yn realistig i gyflawni’r holl amcanion. Nid yw’r ysgol wedi mynd i’r afael yn llawn â phob un o argymhellion yr arolygiad diwethaf.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae’r gymdeithas rhieni ac athrawon yn trefnu gweithgareddau llwyddiannus sy’n codi swm sylweddol o arian yn flynyddol ar gyfer cyfoethogi profiadau’r disgyblion yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw’r bartneriaeth rhwng y rhieni a’r ysgol yn gweithredu’n ddigon effeithiol i’w galluogi i chwarae rhan lawn yn addysg eu plant. O ganlyniad, mae lleiafrif o rieni ddim yn credu bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn ystod eu hamser yn yr ysgol.

Mae trefniadau pontio gyda meithrinfeydd lleol a’r ysgol uwchradd yn gadarn ac yn sicrhau bod y disgyblion yn ymgartrefu’n hwylus wrth iddynt symud ymlaen at y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae’r ysgol yn defnyddio’r gymuned leol i gyfoethogi profiadau dysgu’r disgyblion yn dda; er enghraifft, mae’r disgyblion yn cynnal gwasanaethau achlysurol yn y capeli, yn mynychu’r llyfrgell ac yn ymweld â busnesau lleol. Mae’r profiadau hyn yn atgyfnerthu ymdeimlad disgyblion o falchder yn eu hardal leol ac yn sicrhau eu bod yn derbyn profiadau dysgu buddiol.

Mae’r ysgol yn cydweithio gydag asiantaethau arbenigol allanol yn addas, gan gynnwys y gwasanaethau cymdeithasol a’r gwasanaeth cwnsela. Mae’r partneriaethau hyn yn cefnogi disgyblion a theuluoedd bregus yr ysgol yn briodol trwy gynnig strategaethau buddiol ar gyfer gwella ymddygiad.

Mae’r ysgol yn cydweithio’n agos gydag ysgolion lleol, gan gynnwys rhannu arfer dda a chydgyfrannu cyllid. Er enghraifft, mae’r ysgol yn rhannu costau hyfforddiant gydag ysgolion eraill sydd wedi codi safonau mathemateg ar draws yr ysgol. Mae’r hyfforddiant ar gyfer y teulu o ysgolion Cymraeg lleol hefyd wedi gwella medrau llafar y disgyblion. Mae’r ysgol yn safoni a chymedroli gwaith disgyblion gydag ysgolion lleol yn rheolaidd. Mae hyn yn galluogi staff y clwstwr i gydweithio’n effeithiol i safoni gwaith disgyblion a sicrhau cywirdeb eu hasesiadau.

**Rheoli adnoddau:  Digonol**

Mae gan yr ysgol strwythur staffio addas sy’n rhannu cyfrifoldebau’n briodol.  Mae digon o athrawon a chynorthwywyr dysgu i ymdrin â phob agwedd o’r cwricwlwm. Mae trefniadau addas ar gyfer cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu ar gyfer athrawon.  Mae cynorthwywyr addysgu yn cefnogi athrawon yn gadarn ac yn cydweithio’n dda â disgyblion.  Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob tro’n lleoli staff yn briodol nac yn gwneud y gorau o’u harbenigeddau i godi safonau grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae prosesau ar gyfer rheoli perfformiad y rhan fwyaf o’r staff yn arwain at bennu amcanion priodol sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau gwella'r ysgol a’u hanghenion datblygiad proffesiynol.  Fodd bynnag, nid yw targedau yn ddigon miniog er mwyn sicrhau gwelliant yn yr addysgu a'r dysgu.

Mae ychydig iawn o athrawon yn gweithio’n briodol o fewn rhwydweithiau dysgu, sy’n cyfrannu’n briodol at gyfoethogi’r ddarpariaeth, er enghraifft, gan greu adnoddau ar gyfer rhaglen genedlaethol TGCh.  Fodd bynnag, mae’n rhy gynnar i fesur effaith hyn ar safonau a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae gan yr ysgol drefniadau cyllidebol priodol ac mae gwariant yn cysylltu’n addas ag amcanion, targedau a chynlluniau gwella’r ysgol.  Mae’r pennaeth, y swyddog gweinyddol a’r llywodraethwyr yn monitro ac yn rheoli’r cyllid yn ofalus.

Defnyddir y Grant Amddifadedd Disgyblion yn addas ar gyfer gwella medrau llythrennedd a lles yr ychydig iawn o ddisgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.  Mae llawer o’r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6702189 - Y.G.G. BRYNIAGO**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 229 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 3.3 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 25 | 28 | 19 | 35 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 76.0 | 92.9 | 100.0 | 94.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 1 | 2 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 25 | 28 | 19 | 35 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 84.0 | 92.9 | 100.0 | 94.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 68.0 | 53.6 | 42.1 | 42.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 | 2 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 25 | 28 | 19 | 35 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 80.0 | 96.4 | 100.0 | 94.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 48.0 | 57.1 | 57.9 | 42.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 3 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 25 | 28 | 19 | 35 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 92.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 52.0 | 85.7 | 89.5 | 74.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6702189 - Y.G.G. BRYNIAGO**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 229 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 3.3 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 32 | 19 | 30 | 25 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 87.5 | 100.0 | 90.0 | 96.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 3 | 2 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 32 | 19 | 30 | 25 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 96.9 | 100.0 | 90.0 | 96.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 34.4 | 42.1 | 53.3 | 52.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 32 | 19 | 30 | 25 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 90.0 | 96.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 25.0 | 42.1 | 53.3 | 44.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 1 | 2 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 32 | 19 | 30 | 25 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 87.5 | 100.0 | 93.3 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 43.8 | 57.9 | 50.0 | 48.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 32 | 19 | 30 | 25 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 87.5 | 100.0 | 93.3 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 21.9 | 47.4 | 46.7 | 48.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 3 | 3 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 94 | 89<br>95%<br>98% | 5<br>5%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 94 | 77<br>82%<br>92% | 17<br>18%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 94 | 92<br>98%<br>97% | 2<br>2%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 94 | 90<br>96%<br>97% | 4<br>4%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 94 | 88<br>94%<br>96% | 6<br>6%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 94 | 90<br>96%<br>96% | 4<br>4%<br>4% | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 94 | 91<br>97%<br>99% | 3<br>3%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 94 | 92<br>98%<br>98% | 2<br>2%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 92 | 85<br>92%<br>91% | 7<br>8%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 94 | 85<br>90%<br>95% | 9<br>10%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 93 | 53<br>57%<br>77% | 40<br>43%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 92 | 42<br>46%<br>84% | 50<br>54%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 47 | 20 | 21 | 4 | 2 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 43% | 45% | 9% | 4% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 47 | 24 | 17 | 3 | 3 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 51% | 36% | 6% | 6% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 46 | 28 | 18 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 61% | 39% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 44 | 17 | 16 | 8 | 3 | 2 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 39% | 36% | 18% | 7% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 44 | 12 | 22 | 8 | 2 | 3 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 27% | 50% | 18% | 5% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 41 | 21 | 16 | 2 | 2 | 5 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 51% | 39% | 5% | 5% | | |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 44 | 23 | 17 | 3 | 1 | 3 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 52% | 39% | 7% | 2% | | |
| | | 65% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 39 | 14 | 19 | 3 | 3 | 7 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 36% | 49% | 8% | 8% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 41 | 20 | 11 | 5 | 5 | 5 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 49% | 27% | 12% | 12% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 44 | 21 | 20 | 2 | 1 | 3 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 48% | 45% | 5% | 2% | | |
| | | 60% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 45 | 25 | 15 | 5 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 56% | 33% | 11% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 37 | 14 | 14 | 6 | 3 | 9 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 38% | 38% | 16% | 8% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 45 | 15 | 17 | 11 | 2 | 2 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 33% | 38% | 24% | 4% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 46 | 25 | 12 | 6 | 3 | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 54% | 26% | 13% | 7% | | |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 41 | 21 | 16 | 3 | 1 | 6 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 51% | 39% | 7% | 2% | | |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 42 | 15 | 20 | 5 | 2 | 4 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 36% | 48% | 12% | 5% | | |
| | | 58% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 30 | 13 | 8 | 5 | 4 | 16 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 43% | 27% | 17% | 13% | | |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 44 | 15 | 22 | 5 | 2 | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 34% | 50% | 11% | 5% | | |
| | | 54% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 44 | 15 | 18 | 9 | 2 | 3 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 34% | 41% | 20% | 5% | | |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Kevin Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Rhian Jones | Arolygydd Tîm |
| Michaela Leyshon | Arolygydd Lleyg |
| Jane Peate | Arolygydd Cymheiriaid |
| Nia Jones | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.